

Ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Dwyieithog cyn y broses ddeddfu

Tystiolaeth gan yr Uned Technolegau Iaith

Sylwadau Uned Technolegau Iaith (rhan o Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor) ar gynllun drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer eu gwasanaethau dwyieithog

1. Diolch am y cyfle i ymateb i'r ddogfen hon. Mae hwn yn ymateb ysgrifenedig yn dilyn ein tystiolaeth lafar i'r ymgynghoriad ym Mae Colwyn ar 26 Medi 2011. Gwahoddwyd y Comisiynydd a'i staff i ymweld â'r Uned i weld rhai o'n hadnoddau iaith drostynt eu hunain yn y dyfodol agos.
2. Mae'r Uned Technolegau Iaith yn ymgymryd â safoni termau ar gyfer y Gymraeg, cynhyrchu adnoddau gwirio sillafu a gramadeg, ymchwilio a hyfforddi ym maes technolegau iaith a lleferydd, gan gynnwys technoleg cyfieithu.
3. Mae'r Uned yn cytuno'n llawn â'r egwyddor o ddwyieithrwydd yng ngweithrediadau'r y Cynulliad. Tri sylw cryno sydd gennym i gynorthwyo gwireddu hyn yn ymarferol. Maent yn ymwneud â:
 - Gallu technoleg cyfieithu i dorri hyd at 75% oddi ar gostau cyfieithu gwasanaeth o'r fath;
 - Pwysigrwydd llunio dogfennau yn Gymraeg yn gyntaf a'u trosi i'r Saesneg yn ail yn hytrach na fod popeth yn cael ei ysgrifennu yn Saesneg gyntaf. Dylid gosod nod o gael rhwng 21% a 50% o ddeunydd y Cynulliad yn cychwyn ei daith yn Gymraeg;
 - Cyfraniad posibl darpariaeth ddwyieithog fewnol y Cynulliad i economi Cymru ac i ddatblygu diwydiant technoleg cyfieithu o bwys.

3.1 Technoleg cyfieithu yn torri costau

Manylir ar hyn yn ein hadroddiad *Gwell offer technoleg cyfieithu ar gyfer y Diwydiant Cyfieithu yng Nghymru: Arolwg dadansoddol* (2009)¹. Bellach mae gennym fersiwn alffa o

¹ <http://www.catcymru.org/wordpress/wp-content/uploads/PDFGwell%20offer%20technoleg%20cyfieithu%20ar%20gyfer%20y%20Diwydiant%20Cyfieithu%20yng%20Nghymru.pdf>

raglen cyfieithu peirianyddol Saesneg i'r Gymraeg yn weithredol sy'n rhoi canlyniadau canologol i ni. Hefyd mae Uned Gyfieithu Prifysgol Bangor wedi dechrau defnyddio system llif gwaith a chof cyfieithu a ddatblygwyd gennym yn fewnol ac sy'n rhoi amgylchedd cyfieithu penodol ar gyfer y Gymraeg. Yr ydym newydd gyflwyno cais ymchwil cydweithredol ar y cyd gyda 4 cwmni yng Nghymru dan y rhaglen A4B i ddatblygu'r rhaglen hon ymhellach. Bydd datblygu'r dechnoleg i greu cyfieithu peirianyddol pwrpasol ar gyfer gwahanol feysydd pwnc yn cynhyrchu cyfieithu peirianyddol ac adnoddau eraill o safon llawer yn uwch na'r peiriannau cyfieithu cyhoeddus presennol.

Argymhellwn y canlynol:

- Defnyddio technoleg cyfieithu peirianyddol safon uchel ar gyfer bras gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i staff di-Gymraeg a dysgwyr ddeall cynnwys testun Cymraeg yn sydyn gan arbed amser ac arian;
- ymgorffori'r dechnoleg y tu fewn i raglenni cof cyfieithu er mwyn rhoi cyfieithiad cychwynnol y gall cyfieithydd dynol ei fireinio ymhellach i gynhyrchu Cymraeg caboledig;
- arbed amser ac arian pellach drwy gyflwyno prosesau rhagolygu testun (tebyg i'r un a ddatblygodd yr Uned yn ddiweddar ar gyfer Techscribe²) er mwyn gwella ansawdd y cyfieithu peirianyddol.

3.2 Llunio dogfennau yn Gymraeg yn gyntaf

Mae dau reswm dros argymhell fod canran benodol o ddogfennau'r Cynulliad yn cychwyn eu taith yn Gymraeg. Yn gyntaf mae cael cynifer o ddogfennau yn y parh cyhoeddus sy'n gyfieithiad o'r Saesneg yn andwyol i deithi'r Gymraeg. Mae'n anorfod bod cysgod yr iaith wreiddiol ar gyfieithiadau ac lle mae un iaith yn fawr ac yn bwerus, a'r llall yn wan ac iaith leiafrifol, mae'r diffyg cydbwysedd yn fodd i wanio'r iaith leiafrifol ymhellach. Nid mater ieithyddol yw hyn yn unig, ond mae'n effeithio ar hunan-barch a hunan-ddelwedd siaradwyr Cymraeg.

Mae'r ail reswm yn ymwneud ag arbed arian ac amser. Nid yw bras gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg yn dderbyniol am ei fod yn gwanhau statws yr iaith ymhellach, ac nid oes ei angen er mwyn deall cynnwys testun yn fras, gan fod siaradwyr Cymraeg fel rheol yn medru'r Saesneg hefyd. Ar y llaw arall, mae cyfieithiadau amherffaith i'r Saesneg yn dderbyniol dan rai amgylchiadau, ac yn fodd deall neges yn sydyn pan nad yw'r defnyddwyr yn medru'r iaith wreiddiol. O gael polisi o ysgrifennu'n wreiddiol yn y Gymraeg a defnyddio cyfieithu

² <http://www.techscribe.co.uk/techw/asd-simplified-technical-english.htm>

peirianyddol ar gyfer bras gyfieithu i'r Saesneg, gellid gwneud arbedion sylweddol ar gyfieithu dynol, a chynnal safon y Gymraeg yr un pryd.

3.3 Cyfraniad i economi Cymru

Er bod cwmnïau rhyngwladol mawr fel Google a Microsoft yn darparu peth cefnogaeth i'r Gymraeg, nid ydynt yn mynd i fuddsoddi arian sylweddol ar ddatblygu adnoddau i ieithoedd nad oes iddynt lawer o werth masnachol. Y mae marchnad i gwmnïau bach a chanolig yng Nghymru fodd bynnag o ddarparu meddalwedd ac adnoddau iaith i gefnogi dwyieithrwydd. Noddodd Rhaglen A4B y Cynulliad a'r Undeb Ewropeaidd broject SALT Cymru (Technolegau Iaith a Lleferydd) i hybu ymchwil yn y maes yng Nghymru³ ac un o'r negeseuon allweddol yw y dylid ystyried dwyieithrwydd nid fel baich ariannol ond fel cyfle i brifysgolion a diwydiant fagu arbenigedd a mentergarwch yn y maes fydd yn arwain at gynnydd economaidd, ac yn galluogi Cymru i fanteisio ar y farchnad amlieithog, ryngwladol yn ogystal â'r farchnad gartref. Mae'n bwysig felly fod y Cynulliad yn ystyried y cyfraniad i economi Cymru wrth gaffael meddalwedd ac adnoddau iaith Gymraeg.

**Delyth Prys, Uned Technolegau Iaith, Canolfan Bedwyr, Prifysgol
Bangor
12.10.11**

³ <http://www.saltcymru.org/wordpress/>